
# Blwyddyn 2-3 Cylchredau Bywyd

**Beth yw Cylchred Bywyd?**


Yn syml, mae cylchred bywyd yn golygu cyfnodau o fywyd.Er enghraifft, byddai cylchred bywyd dynol yn edrych fel hyn:



Babi Plentyn Ieuenctid Oedolyn Henaint

**Oes gan bob anifail yr un Gylchred Bywyd?**


Nid yw pob anifail yn mynd drwy'r un newidiadau drwy gydol eu cylchred bywyd, ond mae'r rhan fwyaf o anifeiliaid yn mynd drwy'r hyn a elwir yn gylchred bywyd syml. Mae gan gylchred bywyd syml tri cham yn unig!



- Maent yn cael eu geni (genedigaeth neu ddeoriad)
- Maent yn ifanc
- Maent yn oedolion

**Cylchred Bywyd Iâr**

Mae iâr yn mynd drwy gylchred bywyd syml:



Ŵy Cyw Iâr



visit twinkl.com

## Metamorffosis

Mae metamorffosis yn golygu bod anifail yn mynd drwy newid mawr iawn yn eu cylchred bywyd. Maent yn edrych yn hollol wahanol pan gânt eu geni i sut maent yn edrych pan fyddant yn oedolion! Mae'r rhan fwyaf o'r anifeiliaid sy'n mynd trwy fetamorffosis yn amffibiaid neu'n bryfed.



## Amffibiaid


Mae amffibiaid yn mynd drwy fwy o gamau yn eu cylchred bywyd nac iâr. Er enghraifft, mae gan froga gylchred bywyd 5 cam!



Grifft (wyau) | Penbwl | Penbwl gyda breichiau a choesau | Broga

## Pryfed

Yn union fel amffibiaid, mae pryfed yn mynd drwy fwy na 3 cam yn eu cylchred bywyd hefyd. Beth am fosgito er enghraifft?



Ŵy | Larfa | Pwpa | Chwilen Ifanc | Chwilen Oedolyn



visit twinkl.com

# Cwestiynau

1. Beth mae cylchred bywyd yn ei gynnwys?
   Ticiwch **1.**

cyfnodau o blentyndod ☐

cyfnodau o henaint ☐

cyfnodau o fywyd ☐

cyfnodau o ieuenctid ☐

Beth yw rhai o'r camau i'r hyn a elwir yn gylchred bywyd syml?

Ticiwch **2.**

maent yn cael eu geni ☐ maent yn fabi ☐

maent yn hen ☐ maent yn fawr ☐

maent yn ifanc ☐

2. **Dewiswch** a **chopïwch** un gair sy'n disgrifio pobl sydd yn mynd yn hen.

_______________________________________________

3. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** bob tro.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Does gan gylchred syml ddim pedwar cam. | | |
| Bydd anifail yn mynd drwy gylchred bywyd dynol. | | |
| Mae iâr yn mynd drwy gylchred bywyd syml. | ✓ | |
| Mae'r gylchred bywyd dynol yn cychwyn gydag oedolyn. | | |

4. Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1–5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Mae cylch bywyd broga yn gorffen gyda'r broga wedi tyfu yn fawr. | |
| Yn gyntaf, maent yn wyau, grifft. | 1 |
| Yna byddent yn tyfu gyda breichiau a choesau | |
| Byddent yn tyfu yn benbwl. | |
| Yna, bydd y penbwl yn cael coesau. | |

5. Tynnwch **3** llinell i ddangos sawl cam sydd ym mhob cylchred bywyd.

| | |
|---|---|
| cylchred bywyd syml | tri cham |
| cylchred bywyd amffibiaid/pryfed | pum cam |
| cylchred bywyd dynol | mwy na thri cham |

6. Dewiswch y gair/geiriau gorau i gyd-fynd â'r darn darllen drwy roi tic wrth eich dewis bob tro.

a) Maent yn edrych yn hollol

**debyg** ☐ **wahanol** ☐ **penbwl** ☐ **gylch bywyd** ☐

pan gânt eu geni i sut maent yn edrych pan fyddant yn oedolion!

b) Yn union fel amffibiaid, mae pryfed yn mynd drwy fwy na 3 cam yn eu

**bywyd dynol.** ☐ **geni.** ☐ **cylchred bywyd.** ☐ **camau.** ☐

# Atebion

1. **cyfnodau o fywyd**

   **maent yn cael eu geni**

   **maent yn ifanc**

2. **henaint**

3.

| | True | False |
|---|---|---|
| Does gan gylchred syml ddim pedwar cam. | ✓ | |
| Bydd anifail yn mynd drwy gylchred bywyd dynol. | | ✓ |
| Mae iâr yn mynd drwy gylchred bywyd syml. | ✓ | |
| Mae'r gylchred bywyd dynol yn cychwyn gydag oedolyn. | | ✓ |

4.

| | |
|---|---|
| Mae cylch bywyd broga yn gorffen gyda'r broga wedi tyfu yn fawr. | 5 |
| Yn gyntaf, maent yn wyau, grifft. | 1 |
| Yna byddent yn tyfu gyda breichiau a choesau | 4 |
| Byddent yn tyfu yn benbwl. | 2 |
| Yna, bydd y penbwl yn cael coesau. | 3 |

5.

| | |
|---|---|
| cylchred bywyd syml | tri cham |
| cylchred bywyd amffibiaid/pryfed | pum cam |
| cylchred bywyd dynol | mwy na thri cham |

6. a) Maent yn edrych yn hollol

**debyg** ☐ **wahanol** ✓ **penbwl** ☐ **gylch bywyd** ☐

pan gânt eu geni i sut maent yn edrych pan fyddant yn oedolion!

b) Yn union fel amffibiaid, mae pryfed yn mynd drwy fwy na 3 cam yn eu

**bywyd dynol.** ☐ **geni.** ☐ **cylchred bywyd.** ✓ **camau.** ☐